

Sefydliadau Preswyl

Wrth benderfynu a oes angen bwrdd a llety er mwyn bodloni anghenion person ifanc am ADY, bydd yr ALL yn ystyried a oes modd bodloni anghenion y person ifanc mewn darpariaeth ddydd. Byddai angen profi mai dim ond mewn lleoliad preswyl y gellir darparu rhan hanfodol o'i addysg neu ei hyfforddiant. Byddai'n rhaid i'r lleoliad hefyd gydymffurfio â safonau rheoleiddio ar gyfer lleoliadau preswyl.

Beth fydd yn digwydd pan fydd person ifanc yn ôl-16 oed a'r tu hwnt i oedran ysgol gorfodol?

Erbyn diwedd blwyddyn 11, dylai person ifanc fod wedi cael y cyfle i gael hyfforddiant teithio. O fis Medi 2023, bydd pob person ifanc yn cael asesiad i weld a yw'n barod i ddilyn hyfforddiant teithio annibynnol.

I gael rhagor o wybodaeth am hyfforddiant teithio, cysylltwch â'r tîm hyfforddiant teithio ar HyfforddiantTeithio@caerdydd.gov.uk



Os oes angen cymorth pellach:

Mae gan berson ifanc yr hawl i ofyn am eiriolwr os hoffai gael cymorth ychwanegol drwy gydol y broses bontio. I wneud hyn, gall gysylltu â'i ysgol, ei goleg neu ei weithiwr cymdeithasol i gael un os oes angen. Gall person ifanc gael cymorth gan ffrind achos neu gynrychiolydd hefyd os oedd angen cymorth wrth wneud penderfyniadau. Os bydd rhywbeth yn mynd o'i le, yna gellir cael cymorth gan y Gwasanaeth Datrys Anghytundebau. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:

Teithio Ôl-16

Mae gallu teithio'n annibynnol yn rhan bwysig o ddatblygu gwydnwch ac annibyniaeth person ifanc. Bydd yn cael ei drafod yn ystod adolygiad pontio i lawer o bobl ifanc ag ADY, yn enwedig os byddant yn pontio i leoliadau lle mae angen defnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Mae nifer o opsiynau a all roi cymorth i berson ifanc sydd ei angen. Mae'r rhain yn cynnwys:

• Hyfforddiant Teithio

Nod y Cynllun Hyfforddi Teithio Annibynnol (CHTA) yw rhoi'r sgiliau a'r hyder allweddol i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) deithio o amgylch y ddinas yn annibynnol, gan ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar roi hyfforddiant un-i-un am ddim i annog disgyblion ag ADY i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus i deithio i ac o'r ysgol.

• Pàs bws am ddim

Mae gan lawer o bobl ifanc ag ADY hawl i gael pàs bws am ddim. Gellir prynu rhai tocynnau trên hefyd am bris gostyngol gyda'r pàs hwn.

• Lwfans Symudedd

Os yw person ifanc yn derbyn Taliad Annibyniaeth Bersonol (TAB), mae lwfans symudedd yn rhan o'r taliad i helpu i dalu am gost trafndiaeth os oes gan y person ifanc broblemau symudedd.

• Cynllun y Waled Oren

Ar gyfer pobl ifanc ag anawsterau cyfathrebu, mae'r waled yn defnyddio geiriau a lluniau i gyfleu anghenion i staff trafndiaeth ledled Cymru. Mae staff wedi eu hyfforddi i adnabod y waledi, y gellir eu cael o unrhyw lyfrgell yng Nghaerdydd. Gweler <https://tfw.wales/info-for/passengers/accessible-travel/initiatives/orange-wallet-scheme>

Mae mwy o wybodaeth am deithio os nad yw'r person ifanc yn gymwys i gael pàs bws am ddim ar wefan ei goleg a allai ei helpu i gael mynediad at gymorth ariannol ar gyfer teithio.

Taflen 8

Gwybodaeth i rieni

Canllaw i ÔL-16



Mae Cyngor Caerdydd yn annog dysgwyr, rhieni, ysgolion, lleoliadau a gweithwyr proffesiynol i weithio mewn partneriaeth.

Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn 16 oed?

Ar ôl gadael yr ysgol, mae llawer o bobl ifanc yn mynychu sefydliad addysg bellach neu'n mynd ymlaen i gwblhau hyfforddiant. O fis Medi 2023, bydd angen Cynllun Datblygu Unigol (CDU) ar bob dysgwr sydd angen darpariaeth ddysgu ychwanegol (DDdY) i'w helpu i bontio o'r ysgol i addysg a hyfforddiant ôl-16. Wrth ddewis coleg addas ar gyfer dysgwr, bydd yr ysgolion a'r Awdurdod Lleol (ALI) yn cael eu harwain gan y cod anghenion dysgu ychwanegu (ADY) wrth benderfynu ar y ffordd orau o fodloni anghenion y dysgwr. DDdY yw addysg neu hyfforddiant sy'n ychwanegol at, neu'n wahanol i'r hyn a wneir ar gyfer eraill o'r un oedran mewn lleoliad prif ffrwd neu addysg bellach. Mae CDU yn ddogfen gyfreithiol sy'n disgrifio ADY person ifanc ac yn manylu ar y canlyniadau yr hoffai eu cyflawni yn y dyfodol a'r ddarpariaeth ddysgu sydd ei hangen i'w gefnogi. Mae gan berson ifanc hawl i hyd at ddwy flynedd o addysg bellach a hyfforddiant.

Beth os bydd angen i berson ifanc gael mynediad at addysg a hyfforddiant am fwy na dwy flynedd?

Os yw eisoes wedi cael dwy flynedd neu fwy, efallai na fydd ganddo'r anghenion rhesymol i gael mwy. Fodd bynnag, os oes angen hyfforddiant arno sy'n fwy na dwy flynedd, yna mae rhai amgylchiadau lle gall yr ALI ystyried y cais:

- Os bwriedir i'r rhaglen astudio bara am fwy na dwy flynedd o'r dechrau.
- Os oes angen estyniad i raglen astudio y mae'r person ifanc eisoes yn ymgymryd â hi.
- Os yw'r person ifanc yn ymgymryd â chwrs nad oedd o fudd iddo mewn ffordd ystyrlon neu os oes newid sylweddol yn ei amgylchiadau.
- Ni ellid darparu elfen hanfodol neu sylweddol o addysg bellach neu hyfforddiant i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir fel rhan o hyfforddiant neu addysg flaenorol.
- Mae amgylchiadau eithriadol eraill i awgrymu nad yw'r person ifanc wedi cael mynediad effeithiol at addysg bellach neu hyfforddiant.

Beth yw Cynllunio Pontio?

O flwyddyn 9 ymlaen, enw'r broses o ystyried opsiynau a llwybrau ar gyfer person ifanc ôl-16 yw 'Cynllunio Pontio'.

Cynhelir cyfarfod gyda'r person ifanc, ei deulu a'r gweithwyr proffesiynol y mae'n gweithio gyda nhw, i drafod cynlluniau'r person ifanc ar gyfer y dyfodol a'r hyn y mae angen iddo ei gyflawni a phwy fydd yn rhoi'r cymorth sydd ei angen.

Bydd gweithiwr allweddol pontio yn cael ei enwi ar y cynllun sy'n cael ei ddatblygu i sicrhau ei fod yn rhedeg yn ddidrafferth ac yn helpu os bydd problemau'n codi. Pan fydd cynllun wedi'i gwblhau, bydd yn cael ei rannu gyda phawb sy'n cefnogi'r person ifanc gan gynnwys yr ysgol neu'r coleg, y teulu, yr ysbyty neu'r gwasanaethau iechyd neu'r gwasanaethau cymdeithasol.

Bydd y cynllun yn cael ei adolygu bob blwyddyn fel rhan o broses adolygu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yna'n cael ei rannu â phobl sy'n ei gefnogi. Hyd nes y bydd person yn 16 oed, bydd ei rieni neu'r gwasanaethau cymdeithasol yn penderfynu a oes modd rhannu'r cynllun ac ar ôl iddo droi'n 16 oed, y person ifanc ei hun fydd yn penderfynu a yw am ei rannu neu a yw am barhau i fod â chynllun pontio.

Wrth i amser fynd yn ei flaen, gall cynllun pontio person ifanc nodi bod angen cymorth gweithiwr cymdeithasol pontio. Os yw'n penderfynu bod angen cymorth ar y person ifanc wrth iddo ddod yn oedolyn, bydd y gweithiwr cymdeithasol pontio yn gofyn am benderfyniad amlasiantaethol i benderfynu pwy fydd yn parhau i helpu i gynllunio ar gyfer dyfodol y person ifanc pan fydd yn 18 oed. Os bydd person ifanc yn gadael addysg neu'n teimlo nad oes angen cymorth arno mwyach i gynllunio ar gyfer ei ddyfodol, gall ofyn i'w gynllun ddod i ben.

Pan nad yw person ifanc o oedran ysgol gorfodol mwyach, hyd at 25 oed, nid oes hawl i addysg na hyfforddiant parhaus na hawl i ddarparu dewis person ifanc er y bydd ei farn yn cael ei hystyried.

Beth yw'r canlyniadau a ddymunir gan y person ifanc?

Wrth gynllunio ar gyfer y dyfodol gydag unrhyw berson ifanc, mae'n hanfodol ystyried ei farn, ei deimladau a'i uchelgeisiau yn y dyfodol. Mae angen rhannu ei nodau a'r canlyniadau a ddymunir gyda'r ALI wrth ystyried darpariaeth i fodloni ei anghenion ar gyfer addysg a hyfforddiant.

Dyma rai enghreifftiau o ganlyniadau a ddymunir

- Cwblhau cymhwyster galwedigaethol
- Datblygu sgiliau byw'n annibynnol
- Cyfranogiad cymunedol
- Paratoi ar gyfer gwaith
- Symud ymlaen i gyfleoedd addysg neu hyfforddiant eraill

Gall hefyd ganolbwyntio'n ehangach ar y canlyniadau a ddymunir gan gynnwys: datblygu perthnasoedd cymdeithasol, cefnogi sefydlogrwydd emosiynol neu ddatblygu sgiliau neu rinweddau eraill sydd eu hangen ar gyfer bod yn oedolyn.



Nodi rhaglen astudio addas bosibl i helpu'r person ifanc i gyflawni ei ganlyniadau

Ar ôl i berson ifanc rannu ei obeithion ar gyfer ei ddyfodol (canlyniadau a ddymunir), bydd rhaglen astudio yn cael ei nodi ar gyfer y person ifanc. Gall y rhan fwyaf o ysgolion prif ffrwd a sefydliadau addysg bellach gynnig rhaglen astudio addas ar gyfer person ifanc ag ADY a bydd y rhain yn cael eu hystyried yn gyntaf. Bydd yr ALI yn penderfynu a all y person ifanc astudio yno a pha DDdY sydd ei hangen i'w alluogi i gael mynediad at raglen astudio.

A oes angen i'r ALI baratoi a chynnal neu barhau i gynnal CDU?

Os nad yw ALI yn fodlon y byddai ysgol neu sefydliad addysg bellach yn gallu sicrhau'r DDdY sydd ei hangen ar y person ifanc i ymgymryd â rhaglen astudio, yna bydd yn paratoi ac yn cynnal y CDU ar gyfer person ifanc.

Os yw'n ymddangos yn debygol nad yw anghenion rhesymol y person ifanc am DDdY yn debygol o gael eu bodloni mewn lleoliad a gynhelir, gall yr ALI ystyried rhaglenni astudio mewn sefydliad arbenigol fel sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol.

Sicrhau lleoliad i berson ifanc ag ADY mewn Sefydliad Ôl-16 Arbennig Annibynnol

Yn ddelfrydol, dylai pob person ifanc ag ADY fynychu addysg a hyfforddiant ôl-16 yn ei ardal leol er mwyn cynnal cysylltiadau â'r teulu, ei gymuned leol a gwasanaethau. Fodd bynnag, os yw anghenion y person ifanc yn gymhleth ac nad oes darpariaeth addas ar gael yn lleol, gall fynychu sefydliad ôl-16 arbennig.

Bydd lle mewn unrhyw sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yn cael ei ystyried dim ond os yw'n ymddangos yn debygol mai dim ond mewn sefydliad arbenigol y gellir diwallu anghenion DDdY person ifanc.

Mae'r broses ar gyfer sicrhau lleoliad ar gyfer person ifanc ag ADY mewn sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yn cynnwys mynd i'r afael â'r cwestiynau canlynol:

- A oes gan y person ifanc anghenion rhesymol am addysg a hyfforddiant?
- Beth yw nodau'r person ifanc?
- Pa ddarpariaeth/rhaglen astudio a allai fod ar gael a fyddai'n addas i alluogi'r person ifanc i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir hynny?
- A oes angen i'r ALI baratoi a chynnal neu barhau i gynnal CDU ar gyfer person ifanc?